Cyngor Cymuned  Neuadd Santes Ursula Mawrth 15 2018

Presennol : Fred Jones, Islwyn Jones, Margaret Lewis a’r clerc

Ymddiheuriad  :  Dylan Davies, Huw Griffith, Dai Jones

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Chwefror 16 2018 ac arwyddwyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi.

Deddf Diogelu Data - wedi derbyn y ‘tool kit’ a addawyd oddi wrth Un Llais Cymru ac wedi ymateb i ofyn a fyddai’n bosibl cael fersiwn gywasgedig gan fod y ddogfen yn 63 tudalen o hyd. Derbyniwyd ateb oddi wrth Luned Evans, Swyddog Datblygu Gogledd Cymru Un Llais Cymru yn dweud bod yr holl ddogfen yn berthnasol ond i ganolbwyntio ar dudalennau 12/13.  Y peth pwysig ar hyn o bryd yw cael cofnod o’r math o wybodaeth a gedwir a sut mae’n cael ei gadw.

Gohebiaeth

1 Copi o Clerks and Councils Direct
2 Gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Mawrth
3 Banc Barclays Machynlleth yn cau ym mis Medi
4 Cais am gefnogaeth ariannol oddi wrth Cruse Gofal mewn Galar ac Ambiwlans Awyr Cymru i Blant.  Rhain yn rhy hwyr ar gyfer dosbarthu rhoddion eleni.
5 Kidney Wales yn gofyn i ni drefnu taith gerdded er mwyn codi arian.
6 Llythr cadarnhad oddi wrth Anthony Morgan.
  Asesiad risc.  Edrychwyd trwy’r ddogfen a’i harwyddo ar ôl gweld bod dim wedi newid.

e-byst

Cynnig hyfforddiant ar y Code of Conduct yn Llanfair ym Muallt 10fed Mai; Sesiwn hyfforddi ar Ddeall y Gyfraith yn Aberystwyth 21 Mawrth;  Cynhadledd ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn Abertyleri neu Lanrwst; Calonnau Cymru yn cynnig hyfforddiant CPR am ddim; Ymgynghoriad ynglyn â Pholisi Cynllunio Cymru gan ganolbwyntio ar amgylchedd hanesyddol.

Hysbysiad cau’r ffordd ger Rhod mad ac hefyd o Caegwyn i lawr

Cefnogaeth ariannu ar gael wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu cyd-drefniadau yn ymwneud â Ymgysylltu â’r gymuned, ac â democratiaeth leol.

Materion Ariannol
Sieciau rhoddion i gyd wedi eu danfon ond ddim i gyd wedi cyrraedd y banc hyd yn hyn.  Ar ôl i hyn ddigwydd dylai fod £531.07 yn y cyfrif cyfredol a £25,276.48 yng nghyfrif rhif 2

Unrhyw fater Arall
1  Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag Aberaeron ynghlyn â'r ffaith fod goleuadau rhybudd ysgol yn fflachio unrhyw awr o'r dydd a'r nos.
2  Nodwyd nad oedd y wal ar waelod llwybr yr ysgol wedi cael ei chywiro o hyd. Awgrymwyd chwilio cyfeiriad yr adeiladydd fel y gall y clerc ysgrifennu ato yn tynnu sylw at hyn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf  Ebrill 19 2018